Gwasanaeth Cynghori Ariannol

# Cwynion morgais gwaddol

## Camau i'w cymryd os ydych yn meddwl efallai bod eich morgais gwaddol wedi'i gamwerthu i chi



- Beth y gallwch gwyno amdano
- Terfynau amser
- Sut mae iawndal yn cael ei gyfrifo

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori Ariannol** yn wasanaeth annibynnol, a gafodd ei sefydlu gan y llywodraeth i roi cymorth i bobl wneud y gorau o'u harian gan roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim. Yn ogystal â chynghori ar forgeisi, rydym yn cynnig gwybodaeth ar ystod eang o faterion ariannol eraill.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i roi cymorth i chi wneud penderfyniadau deallus a chynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

**moneyadviceservice.org.uk**

**Cyngor diduedd am ddim**

- ar y we
- dros y ffôn
- wyneb yn wyneb

# Yma i roi cymorth i chi

## Mae'r canllaw hwn i chi wybod sut i wneud cwyn am gynnyrch neu wasanaeth ariannol.

Os ydych yn meddwl bod eich morgais gwaddol wedi'i gamwerthu i chi, efallai y gallech wneud cwyn a bod yn gymwys i gael iawndal.

### Cynnwys


| | |
|---|---|
| Y pethau cyntaf i'w gwneud | 2 |
| Adolygu'ch morgais gwaddol | 4 |
| Gwneud cwyn | 8 |
| Cysylltiadau defnyddiol | 12 |


**Mae terfynau amser ar gwynion ynglŷn â morgeisi gwaddol wedi'u camwerthu, felly gweithredwch yn sydyn.**



# Y pethau cyntaf i'w gwneud

## Cychwyn arni

**1** **Adolygu'ch morgais gwaddol**
Darllenwch y llythyr ail-ragamcanu gan ddarparwr eich polisi gwaddol a gweithredu os oes angen.

Gweler tudalen 4

**2** **Cadarnhewch fod gennych sail dros gwyno**
Cyn eich bod yn gallu cael iawndal, mae angen i chi ddangos bod gennych sail dros gwyno **a'ch** bod wedi profi colled yn ariannol o ganlyniad.

Gweler tudalen 4

**3** **Gweithredwch yn gyflym**
Gall terfynau amser fod yn weithredol yn eich sefyllfa chi. Os cwynwch ar ôl y terfynau amser hyn gall cwmni wrthod eich cwyn.

Gweler tudalen 8

**4** **Os ydych yn wynebu diffyg, peidiwch ag oedi cyn gweithredu**
Po hiraf y byddwch yn aros, y drytaf fydd y gost. Dechreuwch yn awr drwy chwilio am 'Ymdrin â diffyg polisi gwaddol' ar **moneyadviceservice.org.uk**

**Peidiwch fyth â throi eich polisi yn arian parod na stopio'ch taliadau heb dderbyn cyngor ariannol proffesiynol. Gallech fod ar eich colled os gwnewch hyn.**

## Cyngor ymarferol

- Meddyliwch yn ôl i'r hyn a ddywedwyd wrthych pan brynoch chi'r polisi gwaddol a gwirio unrhyw bapurau a roddwyd i chi ar y pryd.

- Os penderfynwch wneud cwyn, cadwch gopïau o unrhyw lythyrau a nodiadau ar alwadau ffôn. Anfonwch gopïau o ddogfennau, ond cadwch y rhai gwreiddiol bob amser.

- Os nad ydych wedi colli allan ond rydych yn anfodlon o hyd ar risgiau polisi gwaddol, efallai y byddwch yn gallu newid i forgais ad-dalu. Cysylltu â'ch darparwr morgais.

  Defnyddiwch y gyfrifiannell forgais ar wefan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol i ganfod faint y gallai'ch ad-daliadau misol fod

  **moneyadviceservice.org.uk/mortgagecalculator**

**Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn rheoleiddio cwmnïau sydd yn gwerthu polisïau gwaddol ac mae rheolau mewn grym sy'n golygu bod raid iddynt ymdrin â'ch cwyn yn deg.**



# Adolygwch eich morgais gwaddol

**Os cymeroch chi forgais llog-yn-unig allan, efallai y gwerthwyd polisi gwaddol ichi. Morgais gwaddol yw'r enw a roddir ar y cyfuniad.**

Mae polisi gwaddol yn buddsoddi eich arian gyda'r nod o wneud iddo dyfu'n ddigon i glirio'r benthyciad gwreiddiol pan ddaw cyfnod y morgais i ben.

Gan y gall y twf ar fuddsoddiadau amrywio, fel arfer nid oes gwarant y bydd y polisi yn ildio digon i ad-dalu'r morgais ar ddiwedd y cyfnod.

Os ydych yn ansicr a oes gennych forgais gwaddol, gwiriwch eich datganiad morgais neu cysylltwch â'ch benthyciwr.

## Llythyrau diffyg gwaddol

Dylech fod wedi derbyn llythyrau gyda'ch datganiad polisi gwaddol blynyddol yn dweud wrthych a yw eich polisi ar y trywydd iawn i ad-dalu'ch morgais. Gelwir y rhain yn lythyrau ail-ragamcanu ac maent yn rhoi gwybod i chi:

- swm unrhyw ddiffyg a ragwelir
- yr opsiynau sydd ar gael i chi
- pa gamau gweithredu sydd angen i chi eu cymryd.

Os nad ydych wedi derbyn llythyr ail-ragamcanu, cysylltwch â darparwr eich polisi a gofyn am un. Darllenwch ef a gweithredu os oes angen.

## Sail i gwyno

Efallai y bydd sail dros gwyno gennych os na wnaeth eich cynghorwr un o'r canlynol:

- dweud wrthych sut y byddai'ch arian yn cael ei fuddsoddi ac egluro'r risgiau cysylltiedig
- egluro bod polisi gwaddol yn ymrwymiad hirdymor sydd yn aml yn rhoi elw gwael os ydych yn ei droi yn arian parod yn gynnar
- gwirio eich bod yn gysurus â'r risgiau ynghylch cysylltu'ch arian â pherfformiad buddsoddiadau
- gwirio bod disgwyliad rhesymol y byddech yn gallu parhau â thaliadau tan ddiwedd cyfnod y morgais
- egluro unrhyw ffioedd a thaliadau a sut y byddent yn effeithio ar yr elw ar eich cynilion.


Efallai y bydd gennych gwyn ddilys hefyd os:

- bydd eich polisi gwaddol yn dod i ben ar ôl i chi ymddeol ac ni wnaeth y cynghorwr wirio a fyddech yn debygol o allu fforddio talu'r premiymau ar ôl i chi ymddeol
- cawsoch eich cynghori i ganslo un polisi gwaddol a chymryd un arall. Mae polisi gwaddol yn fuddsoddiad hirdymor sydd yn aml yn rhoi elw gwael os ydych yn ei droi yn arian parod yn gynnar
- mae eich polisi gwaddol yn parhau wedi i'r cyfnod pan fydd disgwyl i'ch benthyciad morgais ddod i ben
- cawsoch sicrwydd y byddai'r polisi gwaddol yn clirio'ch morgais. Mae hyn yn anarferol ond os gallwch ddangos y dywedwyd wrthych y byddai'r polisi gwaddol yn sicr o glirio'ch benthyciad morgais ac y bu hwn yn rhan o'r contract cyfreithiol rhyngoch chi a'r darparwr.

## Pwyntiau allweddol

- Gwiriwch eich bod wedi cael llythyr ail-ragamcanu yn dweud wrthych beth yw eich sefyllfa ynglŷn â'ch polisi gwaddol. Os nad ydych wedi derbyn llythyr, cysylltwch â'ch darparwr a gofyn am un.
- Ni fyddwch yn gymwys i gael iawndal os na fuoch ar eich colled yn ariannol.
- Os prynoch eich polisi rhwng 29 Ebrill 1988 a 31 Rhagfyr 1994, dylech fod wedi cael manylion polisi a elwir yn 'fanylion y cynnyrch'. Os prynoch eich polisi ar neu ar ôl 1 Ionawr 1995, dylech fod wedi derbyn dogfen' Nodweddion Allweddol'.

**Efallai y byddwch yn gallu cael iawndal hyd yn oed os ydych wedi ildio'ch polisi gwaddol.**



## Sut mae iawndal yn cael ei gyfrifo

Mae'r iawndal fel arfer wedi'i seilio ar beth fyddai'ch sefyllfa wedi bod yn awr, pe na fyddai'r polisi wedi'i werthu i chi ond eich bod, yn hytrach, wedi cymryd morgais ad-dalu yn lle. Nid yw iawndal wedi'i seilio ar beth oeddech chi'n ei ddisgwyl fyddai gwerth y polisi.

Dylai cwmnïau ddilyn canllawiau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) wrth gyfrifo iawndal. Os nad yw'n eglur sut y cyfrifodd y cwmni'r iawndal, neu eich bod yn credu bod camgymeriad wedi ei wneud, gofynnwch am ddadansoddiad o'r ffigurau.

**Mae'r gwaith cyfrifo yn cynnwys cymharu:**

- llog ar y morgais a phremiymau'r polisi gwaddol yr ydych eisoes wedi'u talu a gwerth ildio cyfredol eich polisi morgais gwaddol, â'r
- llog ar y morgais a'r ad-daliadau cyfalaf y *byddech* wedi'u talu ar forgais ad-dalu cyfatebol, a faint o gyfalaf *fyddai* wedi'i dalu'n ôl gennych ar y morgais.

Mewn rhai achosion ystyrir ffactorau eraill. Er enghraifft:

- a oedd angen yswiriant bywyd
- a oedd y polisi'n mynd heibio'ch dyddiad ymddeol
- y math o bolisi gwaddol.

## Pwyntiau allweddol

- Nid yw iawndal wedi'i seilio ar beth oeddech chi'n ei ddisgwyl fyddai gwerth y polisi.
- Mae'r modd y cyfrifir iawndal yn dibynnu ar eich amgylchiadau.
- Nid oes raid i chi dalu treth ar iawndal fel arfer.
- Os cewch gynnig iawndal yn unol â chanllawiau FCA, gallwch fod yn sicr ei fod yn deg.
- Os yw'r cwmni a werthodd y polisi i chi wedi cefnogi'ch cwyn, dylai roi cymorth i chi newid i forgais ad-dalu. A gwnewch yn siŵr nad ydych ar eich colled os ydych yn gorfod talu ffioedd.

## Os ydych eisoes wedi newid i forgais ad-dalu

Fel arfer cyfrifir yr iawndal hyd at y dyddiad y newidioch chi i forgais ad-dalu. Digwydd hyn oherwydd i'r polisi gwaddol gael ei sefydlu'n wreiddiol i ad-dalu morgais.

## A oes angen i chi dalu treth ar iawndal?

Os yw'r iawndal ond yn eich rhoi chi'n ôl yn y sefyllfa y byddech wedi bod ynddi petaech wedi cymryd morgais ad-dalu, yna fyddwch chi ddim fel arfer yn gorfod talu treth arno.

Os yw cyfrifiad yr iawndal yn cynnwys llog ychwanegol, yna bydd raid i chi dalu treth ar y llog yn y ffordd arferol.

Yn ansicr beth yw eich sefyllfa o ran treth? Cysylltwch â Chyllid a Thollau EM, ewch i **hmrc.gov.uk** neu ffoniwch rif llinell gymorth Trethi 0845 300 0627.

**Mae polisi gwaddol yn cynnwys yswiriant bywyd i dalu'r morgais os byddwch yn marw'n gynnar. Os ydych yn dod â'r polisi gwaddol i ben ac angen yswiriant bywyd, bydd raid i chi wneud trefniadau eraill.**



**Os byddwch yn cael iawndal, dylech ystyried ei ddefnyddio i leihau'r swm sy'n ddyledus ar eich morgais.**

# Gwneud cwyn

**Mae gwneud cwyn yn hawdd ac yn rhad ac am ddim.**

Os ydych am wneud cwyn, **gwnewch hynny yn awr**, gan fod yna derfynau amser.

Fel arfer mae'n well cyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig. Os ydych yn ffonio, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw nodiadau manwl o'ch sgwrs, gan gynnwys enw'r person rydych wedi siarad ag ef a'r dyddiad a'r amser y gwnaethoch hynny.

## Beth i'w wneud

**1. Cwyno i'r cwmni a werthodd y polisi gwaddol i chi.**
Efallai mai cynghorwr ariannol fydd hwn, y cwmni gwaddol neu'ch benthyciwr morgais. Gwiriwch gyda'r cwmni gwaddol os nad ydych yn siŵr at bwy y dylech gwyno.

Mae'n rhaid i gwmnïau a reoleiddir gan Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol gael gweithdrefn gwyno ffurfiol a dweud wrthych sut i'w defnyddio.

**Ceisiwch ddod o hyd i'r holl waith papur** ac unrhyw nodiadau a wnaethoch ar y pryd. Os na fedrwch chi ddod o hyd iddynt mae gennych hawl i gael copïau o waith papur gwerthiannau'r cwmni a werthodd y polisi gwaddol i chi.

Pan wnewch gwyn, efallai y bydd y cwmni'n anfon holiadur ichi i'w gwblhau a'i ddychwelyd atynt. **Cwblhewch gymaint ag sy'n bosibl o'r holiadur** – bydd hynny'n cyflymu'r broses.

**2. Os na fyddwch yn fodlon â phenderfyniad y cwmni, gallwch fynd â'ch cwyn at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.**
Mae'n rhaid i chi wneud hyn **o fewn chwe mis** o'r dyddiad yr anfonodd y cwmni lythyr 'ymateb terfynol' i chi.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac mae'n darparu proses effeithiol, seml rhad ac am ddim ar gyfer datrys anghydfodau. Ffoniwch eu Canolfan Gyswllt am gymorth. 0800 023 4567
**financial-ombudsman.org.uk**

## Gwneud cwyn...

**1. Os cymroch eich polisi allan cyn 29 Ebrill 1988.**
Ni reoleiddiwyd gwerthu a chynghori ar bolisïau gwaddol tan 29 Ebrill 1988. Cytunodd rai darparwyr polisïau gwaddol yn wirfoddol i ganiatáu i'r Ombwdsmon edrych ar gwynion cyn y dyddiad hwn. Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon i wirio a wnaeth y cwmni rydych yn cwyno wrtho danysgrifio i'r trefniadau gwirfoddol.

- **Tanysgrifiodd y darparwr neu'r cynghorwr i'r trefniadau gwirfoddol.**
  Dylent ddelio â'ch cwyn yn unol â rheolau'r FCA bob tro sy'n datgan bod raid iddynt ymdrin â'r gŵyn yn deg. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi gwybod ichi pryd y gallwch gyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon.

- **Ni wnaeth y cwmni danysgrifio i'r trefniadau gwirfoddol.** Gallwch gwyno i'r darparwr a'r cynghorwr o hyd, ond mae'n rhaid iddynt ddilyn rheolau'r FCA bob tro. Mae hyn yn golygu hefyd na fyddwch yn gallu mynd â'ch cwyn at yr Ombwdsmon os na allwch ddatrys eich cwyn gyda'r cwmni.

**2.** Cawsoch eich **cynghori** *cyn* 29 Ebrill 1988 ond cafodd y polisi ei **gymryd allan** ar ôl y dyddiad hwnnw, efallai y byddwch yn dal i allu cyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon, hyd yn oed os na wnaeth y cwmni danysgrifio i'r trefniadau gwirfoddol. Gwiriwch gyda'r Ombwdsmon os nad ydych yn siŵr.

**3. Prynoch chi'ch polisi ar ôl cael cyngor gan gyfreithiwr.**
Cwyno i'r cyfreithiwr yn gyntaf. Os nad ydych yn fodlon â'r penderfyniad, ac wedi prynu'ch polisi cyn 1 Rhagfyr 2001, bydd angen i chi fynd â'ch cwyn at y cynllun cwyno perthnasol.

Gan ddibynnu ymhle mae'r cyfreithiwr, cysylltwch â:

- Comisiwn Cwynion Cyfreithiol Yr Alban
- Cymdeithas y Gyfraith Gogledd Iwerddon
- Ombwdsmon Cyfreithiol Cymru a Lloegr.

Prynoch chi'ch polisi gwaddol ar ôl derbyn cyngor gan gyfreithiwr **ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2001**, dylech ddilyn y weithdrefn gwyno arferol – gweler tudalen 8.

Os yw'ch cyfreithiwr wedi peidio â masnachu, cysylltwch â'r gymdeithas gyfraith berthnasol.

*Gweler Cysylltiadau* defnyddiol ar dudalen 12.

## Terfynau amser ar gwynion

Mae terfynau amser ar gwynion. Os cwynwch ar ôl y terfynau amser hyn, gall cwmni wrthod eich cwyn gan ei bod y tu hwnt i'r amser – a adnabyddir fel **'gwahardd-amser'**. Gall ofyn i'r Ombwdsmon wrthod y gŵyn hefyd.

Er enghraifft, gall eich cwyn gael ei gwrthod os:

- derbyniwch lythyr sy'n rhybuddio bod risg uchel o ddiffyg; yna rydych yn derbyn llythyr dilynol sy'n rhoi o leiaf chwe mis o rybudd o 'ddyddiad terfynol' a bydd raid i chi anfon cwyn erbyn y dyddiad hwnnw; a
- bod y 'dyddiad terfynol' hwnnw o leiaf dair blynedd ar ôl y dyddiad y derbynioch chi'r llythyr cyntaf ac o leiaf chwe blynedd ers i chi brynu'r polisi; ond rydych yn gwneud cwyn wedi'r 'dyddiad terfynol'.

## Pwyntiau allweddol

- Os ydych am wneud cwyn, gwnewch hynny yn awr – efallai fod amser yn brin.
- Ni chodir tâl arnoch os ydych yn cwyno i'r cwmni a werthodd y polisi ichi. Mae gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol yn rhad ac am ddim hefyd.

Hyd yn oed os yw'r cwmni'n gwrthod eich cwyn oherwydd ei bod y tu hwnt i'r amser, gallwch o hyd gyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon os ydych o'r farn:

- bod amgylchiadau eithriadol, neu
- fod y gwaharddiad amser wedi'i weithredu'n anghywir, neu
- fod y gwaharddiad amser yn annheg.

Dylech wneud hyn **o fewn chwe mis o'r dyddiad yr anfonodd y cwmni lythyr 'ymateb terfynol' atoch**.

## Nid oes angen i chi ddefnyddio cwmni rheoli cwynion

Mae rhai cwmnïau'n cynnig rhoi cymorth i bobl i ddilyn eu cwynion gyda chwmnïau gwasanaethau ariannol a gyda'r Ombwdsmon am ffi – sef cyfran o'r iawndal fel arfer.

Cyn i chi danysgrifio dylech fod yn ymwybodol:

- nad yw defnyddio'r cwmnïau hyn o angenrheidrwydd yn gwella'r tebygolrwydd y bydd eich cwyn yn llwyddo
- mae rhai cwmnïau'n gofyn am ffi ar y cychwyn, ac efallai y bydd raid i chi dalu ffi o hyd os penderfynwch beidio'u defnyddio
- os byddwch yn llwyddiannus, drwy dalu ffi neu gyfran o'r iawndal bydd gennych lai o arian i glirio'ch morgais.

Nid ydym yn argymell defnyddio cwmnïau rheoli hawliadau neu gwynion, ond os ydych yn gwneud hynny, gwiriwch:


- gostau a manteision defnyddio'r cwmni
- y ffioedd a'r amodau
- y rheoleiddir y cwmni gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu mae'n aelod o gorff proffesiynol fel Cymdeithas y Cyfreithwyr.


Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12.


## Pwyntiau allweddol

- Hyd yn oed os gwrthodwyd eich cwyn oherwydd ei bod y tu hwnt i'r amser, gallwch o hyd gyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon mewn rhai achosion.
- Os byddwch yn penderfynu cyflogi rhywun i gyflwyno eich achos ar eich rhan byddwch yn gorfod talu eu costau eich hun. Gall hyn olygu eich bod chi'n talu rhan o unrhyw iawndal a roddir i chi, iddyn nhw.
- Nid yw defnyddio cwmni rheoli hawliadau yn gwella'r tebygolrwydd y bydd eich cwyn yn llwyddo.

# Canllawiau argraffedig am ddim




Mae ein canllawiau yn rhoi cyngor a gwybodaeth clir a diduedd i chi ar draws ystod o faterion a phynciau ariannol.

**I gael rhagor o wybodaeth chwiliwch am 'ganllawiau argraffedig am ddim' ar moneyadviceservice.org.uk**

Gwasanaeth
Cynghori Ariannol

# Cysylltiadau defnyddiol

## Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn wasanaeth annibynnol, a gafodd ei sefydlu gan y llywodraeth i roi cymorth i bobl wneud y gorau o'u harian gan roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim am arian i bawb ledled y Deyrnas Unedig – ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Rydym yn rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar ystod eang o bynciau gan gynnwys rheoli arian o ddydd i ddydd, cynilion, cynllunio eich ymddeoliad ac ar gyfer eich dyfodol, yn ogystal â chyngor a chymorth ar ddigwyddiadau sy'n newid bywyd megis cychwyn teulu neu golli eich swydd.

**Am gyngor a mynediad at ein hoffer a'n cynllunwyr ewch i**
**moneyadviceservice.org.uk**

**Neu ffoniwch ein Llinell Cyngor Ariannol ar**
**0300 500 5000***

**Typetalk**
**1800 1 0300 500 5000**

### Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
0845 450 6858
01283 233 309
**claimsregulation.gov.uk/search.aspx**

## I ddod o hyd i gyfreithiwr

### Cymdeithas y Gyfraith
020 7242 1222
**lawsociety.org.uk**

### Cymdeithas y Gyfraith Gogledd Iwerddon
028 9023 1614
**lawsoc-ni.org**

### Cymdeithas y Gyfraith Yr Alban
0131 226 7411
**lawscot.org.uk**

## Cwynion ac iawndal

### Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (Financial Ombudsman Service)
0800 023 4567
0300 123 9123
**financial-ombudsman.org.uk**

### Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (Financial Services Compensation Scheme)
0800 678 1100
020 7741 4100
**fscs.org.uk**

### Ombwdsmon Cyfreithiol (Cymru a Lloegr)
0300 555 0333
**legalombudsman.org.uk**

### Comisiwn Cwynion Cyfreithiol Yr Alban
0131 528 5111
**scottishlegalcomplaints.org.uk**

## Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

**Cwynion morgais gwaddol**
yw un o'r canllawiau sydd ar gael gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. I weld ein cyfres lawn o ganllawiau ac i archebu copïau ewch i
**moneyadviceservice.org.uk**

Money Advice Line **0300 500 5000***
Typetalk **1800 1 0300 500 5000**

Os hoffech gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat clywedol cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Mae galwadau i rifau 0300 am ddim os oes gennych funudau galwadau am ddim neu gynhwysol fel rhan o'r cytundeb sydd gennych gyda'ch darparwr llinell tir neu ffôn symudol. Os nad oes gennych funudau galwadau am ddim neu gynhwysol yna codir ffi ar gyfradd safonol i rifau 0300 ar gyfer rhifau'r Deyrnas Unedig (ee rhifau'r Deyrnas Unedig sy'n cychwyn gyda 01 neu 02). Er mwyn rhoi cymorth i ni gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Gwybodaeth yn gyfredol pan gafodd ei hargraffu (Ebrill 2014).

Ebrill 2014
© Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol Ebrill 2014
Cyf: WelshEMComplaints0001B